Cwestiynau Ychwanegol ar Holiaduron

1. Mae arolwg yn cael ei gynnal drwy ofyn cwestiynau i bobl wrth iddyn nhw ddod allan o siop bysgod a sglodion.

   Mae rhan o holiadur yr arolwg wedi'i ddangos isod.

> 1. Faint yw eich oedran chi?
>
> Ticiwch ✓ y blwch: 15 i 20 ☐ 21 i 30 ☐ 30 i 40 ☐ Yn hŷn na 40 ☐
>
> 2. Ydych chi'n mynd o gwbl i siop bysgod a sglodion i brynu bwyd mynd allan *(take-away food)*?
>
> Ticiwch ✓ y blwch: Ydw ☐ Nac ydw ☐
>
> 3. Sut wnaethoch chi dalu? Pa ddull talu y gwnaethoch chi ei ddefnyddio?
>
> .....
>
> .....

   (a) Eglurwch pam mae hwn yn arolwg tueddol (*biased*).

   (b) Nodwch **ddwy** feirniadaeth ynghylch cynllun (*design*) cwestiwn 1 yn yr arolwg.

   (c) Beth yw'r broblem gyda chynllun cwestiwn 3 yn yr arolwg?

   (ch) Dangoswch sut y gallai cwestiwn 3 yn yr arolwg gael ei wella.

2. Mae rheolwr siop yn bwriadu cynnal arolwg i ddarganfod barn y cyhoedd am y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'r siop.

   Un o'r cwestiynau yn ei holiadur oedd

> *Pa mor aml y byddwch chi'n dod i mewn i'r siop?*
>
> ☐ Yn aml iawn ☐ Yn aml ☐ O bryd i'w gilydd

   (a) Ysgrifennwch **ddwy** feirniadaeth o'r cwestiwn yma.

   (b) Ysgrifennwch fersiwn gwell o'r cwestiwn.

3. Defnyddiodd cyngor holiadur i ddarganfod a oedd cefnogaeth gan bobl leol i wario arian ychwanegol ar lwybrau troed mynyddoedd yr ardal. Dros bedwar penwythnos, yn ystod yr haf, rhoddwyd yr holiadur allan mewn maes parcio ar droed un o'r llwybrau. Roedd dau o'r cwestiynau yn yr holiadur fel a ganlyn.

Cwestiwn 1

Pa mor aml y byddwch chi'n cerdded ar hyd llwybrau troed y mynyddoedd?
Ticiwch **un** blwch.

1 i 5 gwaith ☐ 5 i 10 gwaith ☐ mwy na 10 gwaith ☐

Cwestiwn 2

Ydych chi'n credu y dylai'r cyngor wario arian ychwanegol ar lwybrau troed y mynyddoedd? Ticiwch **un** blwch.

Ydw ☐ Nac ydw ☐

(a) Rhowch ddau reswm pam mae **Cwestiwn 1** yn anfoddhaol.

(b) Rhowch un rheswm pam, efallai, na fydd **Cwestiwn 2** yn rhoi canlyniad a fydd yn adlewyrchu barn y bobl leol.

4. Mae Tomos yn bwriadu cynnal arolwg o'r bobl yn ei dref enedigol i ddarganfod eu barn am amserau agor y sinema.

Un o'r cwestiynau yn ei holiadur oedd

Ym mha grŵp oedran ydych chi?

☐ 20 – 30 ☐ 30 – 40 ☐ 40 – 50 ☐ 50 a throsodd

(a) Ysgrifennwch **ddwy** feirniadaeth o'r cwestiwn hwn.

(b) Mae e'n bwriadu cynnal ei arolwg bob bore o ddydd Llun i ddydd Gwener mewn gwahanol rannau o'i dref enedigol. Gwnewch un feirniadaeth o'r cynllun hwn.